COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

Canllaw

# Rhybuddion swyddogol i elusennau ac ymddiriedolwyr: Cwestiwn ac Ateb

Rhoddodd Deddf (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) Elusennau 2016 bŵer newydd i'r Comisiwn Elusennau ('y comisiwn') i roi rhybuddion swyddogion. Gall y comisiwn roi rhybudd swyddogol os yw o'r farn bod tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, neu gamymddwyn neu gamreoli arall wedi digwydd mewn elusen. Mae'r pŵer yn ategu gallu a phwerau presennol y comisiwn i ddelio â drwgweithredu mewn elusennau, gan gynnwys trwy roi cyngor ac arweiniad rheoleiddiol neu ddefnyddio pwerau dros dro ac amddiffynnol.

Mae'r canllaw hwn yn esbonio rhagor am y pŵer a phryd y gall y comisiwn ei ddefnyddio. Mae'n esbonio'r broses ar gyfer rhoi rhybudd swyddogol a beth mae'n ei olygu i elusennau neu ymddiriedolwyr sy'n cael rhybudd swyddogol.

## C1. Beth yw'r pŵer hwn?

Pŵer swyddogol yw hwn i roi rhybudd swyddogol (h.y. ffurfiol) i:

- ymddiriedolwr elusen neu ymddiriedolwr ar gyfer elusen os yw'r comisiwn o'r farn ei fod wedi cyflawni tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd wedi digwydd, neu gamymddwyn neu gamreoli arall
- elusen y mae'r comisiwn o'r farn bod tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, neu gamymddwyn neu gamreoli arall yn gysylltiedig â hi

## C2. Beth yw ei bwrpas, a pham mae ei angen ar y comisiwn?

Pwrpas rhoi rhybudd swyddogol yw sicrhau bod yr elusen neu'r ymddiriedolwr(wyr) dan sylw yn gwybod bod tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli wedi digwydd a bod iddo gael ei ddatrys, a sicrhau eu bod nhw'n gwybod pa gamau y dylent eu cymryd i atal y camymddwyn neu'r camreoli neu ei atal rhag digwydd eto.

Bydd y pŵer hwn yn ein helpu ni i fynd i'r afael â chamymddwyn neu gamreoli mewn elusennau os, yn unol â'r blaenoriaethau a'r egwyddorion a nodir yn ein **fframwaith risg**, rydym o'r farn bod:

- y niwed, neu'r risg o niwed, i elusen, ei hasedau (gan gynnwys ei henw da) neu fuddiolwyr yn ddigonol i'w gwneud hi'n ofynnol i'r comisiwn weithredu
- nid yw cyngor ac arweiniad rheoleiddiol yn ddigon ynddo'i hun i ddelio â'r camymddwyn neu'r camreoli
- ni fyddai'n gymesur yn yr amgylchiadau i ddefnyddio pwerau amddiffynnol dros dro neu barhaol eraill (megis diswyddo neu anghymhwyso ymddiriedolwyr, boed mewn ymchwiliad neu beidio) neu ei gwneud hi'n ofynnol i ymddiriedolwyr roi cyfrif am golled neu fudd, er enghraifft trwy adfer neu adennill cronfeydd

Os yw'n briodol, gall y comisiwn gyhoeddi rhybuddion swyddogol hefyd i hybu tryloywder. Gall cyhoeddi roi gwybod i elusennau ac aelodau'r cyhoedd neu ddarpar roddwyr am weithredoedd yn yr elusen sydd wedi rhoi achos o bryder rheoleiddiol iddo. Bydd yn helpu i hybu ffydd a hyder cyhoeddus yn y sector.

## C3. Fydd ymchwiliad yn cael ei gychwyn?

Nid oes rhaid i'r comisiwn gychwyn ymchwiliad statudol cyn y gall roi rhybudd. Fel arfer byddai'r comisiwn yn ystyried rhoi rhybudd swyddogol mewn achos lle na fyddai'n gymesur i ddefnyddio'r pwerau eraill, megis y rhai y gall eu defnyddio dim ond pan fydd ymchwiliad wedi'i gychwyn. Ond gall y comisiwn benderfynu ar ddiwedd yr ymchwiliad bod rhoi rhybudd yn fwy priodol a chymesur fel canlyniad na defnyddio pwerau eraill.

Gall y comisiwn ystyried cychwyn ymchwiliad a defnyddio ei bwerau eraill os nad yw'r ymddiriedolwyr yn unioni'r mater wedi hynny fel y nodir mewn rhybudd swyddogol. Mae methu ag unioni'r camymddwyn neu'r camreoli a nodir mewn rhybudd swyddogol yn galluogi'r comisiwn i ddefnyddio pwerau amddiffynnol ac adferol eraill, megis gwahardd ymddiriedolwyr dros dro ac yn y pen draw diswyddo ymddiriedolwyr pan fydd ymchwiliad yn cychwyn. Gall hefyd gael ei ystyried yn fath o gamreoli neu gamymddwyn.

## C4. Beth yw tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli?

Mae tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd yn cynnwys gweithredu'n groes i:

- ddyletswyddau cyfreithiol yr ymddiriedolwyr
- dogfen lywodraethol yr elusen
- gofynion statudol penodol ar gyfer ymddiriedolwyr fel y'u nodir yn Neddf Elusennau 2011 - megis ffeilio ffurflenni blynyddol, adroddiadau a chyfrifon
- unrhyw ddyletswydd gyfreithiol arall sy'n gymwys i'r elusen neu ei hymddiriedolwyr

(Esbonnir dyletswyddau cyfreithiol allweddol ymddiriedolwyr yn **Yr Ymddiriedolwr Hanfodol**.)

Mae camymddwyn yn cynnwys unrhyw weithredu (neu fethu â gweithredu) yr oedd y sawl a'i cyflawnodd yn gwybod (neu y dylasai fod wedi gwybod) ei fod yn drosedd, yn anghyfreithlon neu'n amhriodol

Mae camreoli yn cynnwys unrhyw weithredu (neu fethu â gweithredu) a all achosi i adnoddau elusennol gael eu camddefnyddio neu i'r bobl sy'n cael budd o'r elusen fod mewn perygl.

Yn ogystal mae'r Ddeddf Elusennau yn ei gwneud hi'n glir bod methu â chydymffurfio â gorchymyn neu gyfarwyddyd y comisiwn a methu ag unioni'r camymddwyn neu'r camreoli a nodir mewn rhybudd swyddogol yn cael ei ystyried yn gamymddwyn a/neu gamreoli.

## C5. Ym mha fathau o amgylchiadau ydy'r comisiwn yn debygol o roi rhybudd swyddogol?

Bydd y comisiwn yn dilyn yr egwyddorion yn ei **fframwaith risg** wrth benderfynu pa gamau rheoleiddiol sy'n briodol pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le mewn elusen. Bydd y comisiwn yn ystyried, ymysg ffactorau eraill, ymddygiad ac ymateb yr ymddiriedolwyr wrth benderfynu pa gamau rheoleiddiol sy'n briodol.
Gan ddilyn yr egwyddorion hyn, mae'r comisiwn yn debygol o ystyried defnyddio'r pŵer rhybuddio, er enghraifft, pan fydd un neu ragor o ymddiriedolwyr:

- wedi gweithredu'n ddi-hid neu heb ofal dyledus, gan arwain at dor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli
- wedi methu â chymryd camau priodol i unioni tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli er iddynt ymgysylltu â'r comisiwn (er enghraifft, trwy gydymffurfio â rhybuddion diofyn am fethu â chyflwyno cyfrifon a ffurflenni neu roi cynllun gweithredu ar waith a gytunwyd â ni)
- wedi methu â chyflawni dyletswyddau cyfreithiol wrth weinyddu'r elusen neu os yw'r elusen heb gyflawni dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â gweithgareddau'r elusen
- (neu os yw'r elusen) wedi arddangos patrwm o gamymddwyn neu gamreoli ailadroddus
- wedi camweithredu'n fwriadol ond ni fyddai'n gymesur yn yr achos hwn i'r comisiwn ddefnyddio pwerau eraill

Mae'r comisiwn yn cydnabod bod y rhan fwyaf o ymddiriedolwyr yn wirfoddolwyr sy'n gwneud camgymeriadau gonest weithiau. Nid yw'r comisiwn yn debygol o roi rhybudd swyddogol:

- os yw'r tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli yn ddibwys neu'n dechnegol ei natur (megis torri darpariaethau gweinyddol yn y ddogfen lywodraethol)
- os nad yw'n dangos bod ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd
- os yw'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n onest ac yn rhesymol ac yn cymryd camau priodol i unioni pethau ac atal pethau rhag digwydd eto
- os nad oes llawer o golled neu risg i'r elusen neu i ffydd a hyder y cyhoedd

Fodd bynnag, erbyn hyn gall y comisiwn ystyried rhoi rhybudd swyddogol os yw effaith y camymddwyn neu'r camreoli ar yr elusen neu'r sector yn ddigon difrifol i warantu gweithredu rheoleiddiol.

## C6. Sut byddaf yn gwybod os yw'r comisiwn yn bwriadu rhoi rhybudd swyddogol i mi neu fy elusen?

Gall y comisiwn roi rhybudd dim ond os yw'n ystyried, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael iddo, eich bod wedi cyflawni tor-ddyletswydd neu gamymddwyn neu gamreoli mewn elusen.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n debygol y bydd y comisiwn eisoes wedi ymgysylltu'n ffurfiol â'ch elusen ynghylch y tor-ymddiriedaeth neu'r tor-ddyletswydd neu'r camreoli dan sylw. Gallai hyn gynnwys gohebu am fethu â chyflwyno cyfrifon blynyddol, adroddiadau a ffurflenni, achos cydymffurfio gweithredol, achos monitro, ymweliad ymchwilio neu ymchwiliad. Ym mhob achos lle mae'r comisiwn wedi dod i'r casgliad bod tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd neu gamreoli wedi digwydd ac o ganlyniad mae'n bwriadu rhoi rhybudd, mae'n rhaid iddo roi rhybudd statudol o'i fwriad a rhoi cyfle i'r ymddiriedolwyr i gyd (yn y DU) a'r elusen i wneud sylwadau yn gyntaf. Felly byddwch yn ymwybodol o bryderon y comisiwn a bydd cyfle gennych i ymateb cyn bod y comisiwn yn penderfynu symud ymlaen a rhoi neu gyhoeddi rhybudd swyddogol.

## C7. Beth fydd y rhybudd o fwriad y comisiwn i roi rhybudd yn ei esbonio?

Rhaid i'r hysbysiad o'r rhybudd arfaethedig esbonio:

- bod y comisiwn yn bwriadu rhoi rhybudd swyddogol o dan adran 75A o'r Ddeddf Elusennau ac a yw'n cael ei wneud yn erbyn yr ymddiriedolwyr a/neu'r elusen
- y sail ar gyfer y rhybudd - y tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli y mae'r comisiwn wedi'i nodi
- unrhyw gamau y mae'r comisiwn yn bwriadu eu cymryd, neu mae'n ystyried y dylai'r elusen neu ei hymddiriedolwyr eu cymryd, i unioni'r camymddwyn neu'r camreoli
- a yw'r comisiwn, ac os yw, sut mae'r comisiwn yn bwriadu cyhoeddi'r rhybudd
- y cyfnod o amser pan fyddwch yn gallu cyflwyno sylwadau i'r comisiwn ynghylch cynnwys y rhybudd arfaethedig

## C8. Sut bydd cyfle gennyf i leisio fy marn cyn i'r comisiwn roi rhybudd?

Bydd yr hysbysiad o'r rhybudd arfaethedig yn esbonio sut i gysylltu â'r comisiwn, a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch cynnwys y rhybudd arfaethedig.

## C9. Faint o amser fydd gennyf i ymateb?

Fel rheol bydd y comisiwn yn rhoi 28 diwrnod i chi ymateb oni bai bod rhesymau pam y mae cyfnod rhybudd byrrach yn briodol.

## C10. Ar beth fydd y comisiwn yn ystyried sylwadau?

Mae'n rhaid i'r comisiwn ystyried sylwadau ynghylch 'cynnwys y rhybudd arfaethedig'. Mae hyn yn cynnwys:

- cywirdeb ffeithiol y tor-ymddiriedaeth/tor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli sy'n destun y rhybudd a beth mae'r comisiwn yn deall ynghylch yr amgylchiadau - beth ddigwyddodd, pwy oedd wedi cymryd rhan
- yn erbyn pwy y mae'r rhybudd yn cael ei wneud
- unrhyw gamau y mae'r comisiwn yn ystyried y mae angen eu cymryd i unioni'r tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod ei weithredu rheoleiddiol yn gymesur, mae'r comisiwn hefyd yn barod i ystyried sylwadau ynghylch:

- y camau a gymerwyd gan yr ymddiriedolwyr i unioni pethau, a'u heffaith
- unrhyw ffactorau lliniarol neu waethygol
- arwyddocâd neu effaith tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli ar yr elusen, ei hasedau gan gynnwys ei henw da, ei buddiolwyr neu ar ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau yn gyffredinol
- cynigion i gyhoeddi'r rhybudd a sut, gan gynnwys unrhyw risg i'r elusen neu ei buddiolwyr a allai ddeillio o'r comisiwn yn cyhoeddi'r rhybudd

Dylai sylwadau, lle'n bosibl, gael eu hategu gan dystiolaeth.

## C11. Sut galla i fod yn siŵr y bydd unrhyw sylwadau a wnaf yn cael eu hystyried yn briodol?

Mae'n rhaid i'r comisiwn ystyried unrhyw sylwadau ynghylch cynnwys y rhybudd arfaethedig a gaiff o fewn cyfnod y rhybudd. Bydd y comisiwn yn dilyn yr egwyddorion a nodir yn ei **weithdrefn adolygu penderfyniad** i sicrhau bod sylwadau yn cael eu hystyried mewn modd gwrthrychol ac amserol.

## C12. Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd cyfnod y rhybudd?

Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau, bydd y comisiwn yn penderfynu p'un ai i:

- symud ymlaen i roi'r rhybudd
- rhoi rhybudd, ond wedi'i addasu ar ôl ystyried gwybodaeth ychwanegol sydd wedi cael ei darparu
- peidio â rhoi'r rhybudd

Nid oes unrhyw ofyniad i roi rhybudd pellach ar y cam hwn, ond bydd y comisiwn yn rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr am ei benderfyniad.

## C13. Alla i herio/apelio yn erbyn penderfyniad y comisiwn?

Nid yw'r penderfyniad i roi rhybudd swyddogol, ar ôl iddo gael ei wneud, yn un o'r penderfyniadau y gallwch eu cyfeirio at y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Elusen).

Oherwydd hynny mae'r comisiwn wedi cynnwys mesurau diogelu ychwanegol yn y broses o wneud y penderfyniad i roi rhybudd. Fel yr esbonnir yng nghwestiwn 10 ac 11:

- mae'r comisiwn yn barod i ystyried sylwadau ar amrywiaeth ehangach o seiliau nag y mae'n rhaid iddo ei wneud yn ôl y gyfraith
- bydd y comisiwn yn dilyn egwyddorion ei broses adolygu penderfyniad wrth ystyried sylwadau

Pan fydd y comisiwn wedi penderfynu rhoi rhybudd, fodd bynnag, gallwch ofyn i'r penderfyniad gael ei adolygu dim ond os gallwch ddangos bod y rhybudd wedi cael ei roi ar gam neu drwy gamgynrychiolaeth neu fel arall yn hytrach na chydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau.

Fodd bynnag, bydd y comisiwn yn ystyried unrhyw gamau a gymerir gan yr elusen i unioni'r tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli, neu ei atal rhag cael ei ailadrodd, wrth ystyried a allai fod yn briodol i amrywio'r rhybudd neu ei dynnu yn ôl.

Fel yn achos y rhan fwyaf o benderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus, gall defnydd y comisiwn o rybudd swyddogol fod yn amodol ar adolygiad barwnol hefyd.

## C14. Beth mae'n rhaid i mi wneud mewn ymateb i rybudd swyddogol? All y comisiwn fy nghyfarwyddo?

Nid yw rhybudd swyddogol yn gyfarwyddyd statudol. Ni all y comisiwn ddefnyddio rhybudd swyddogol i gyfarwyddo'r ymddiriedolwyr i weithredu mewn ffordd benodol. Fodd bynnag:

- mae'n rhaid i'r comisiwn bennu (yn yr hysbysiad o'i fwriad i roi rhybudd) unrhyw gamau y mae'n ystyried eu cymryd, neu y mae o'r farn y dylai'r ymddiriedolwyr neu'r elusen eu cymryd, i unioni'r tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli
- gall methu ag unioni unrhyw dor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd a nodir mewn rhybudd gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth o gamymddwyn neu gamreoli gan gynnwys wrth ystyried p'un ai i arfer pwerau penodol eraill, yn arbennig y rhai o dan adran 76 o Ddeddf Elusennau 2011 (fel yr esbonnir yng nghwestiwn 15)

Felly, dylech gymryd camau priodol i unioni'r tor-ymddiriedaeth neu dor-ddyletswydd, gamymddwyn neu gamreoli a nodir yn y rhybudd, a'i atal rhag digwydd eto.

## C15. Beth fydd yn digwydd os ydym yn delio â'r camymddwyn neu'r camreoli, neu os nad ydym yn gwneud hynny?

Mae'r comisiwn yn disgwyl i chi gymryd camau priodol i ddelio â'r camymddwyn neu'r camreoli a nodir yn y rhybudd. Pan fyddwch wedi gwneud hyn, gall ystyried a fyddi'n briodol i dynnu'r rhybudd yn ôl neu amrywio'r rhybudd i adlewyrchu'r camau rydych wedi'u cymryd, yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Ni fydd y comisiwn yn tynnu'r rhybudd yn ôl yn awtomatig; bydd yn ystyried yr amgylchiadau ym mhob achos, gan gynnwys y risg y gallai'r camymddwyn neu'r camreoli ddigwydd eto.

Os yw'r comisiwn yn penderfynu amrywio'r rhybudd, rhaid iddo ailadrodd y drefn rhybudd a nodir yn yr ateb i gwestiwn 7.

Os ydych yn methu ag unioni unrhyw dor-ymddiriedaeth a nodir mewn rhybudd adran 75A, mae hyn yn sail i'r comisiwn ddefnyddio ei bwerau o dan adran 76 o'r Ddeddf Elusennau (neu i gymryd camau rheoleiddiol eraill).

Mae pwerau'r comisiwn o dan adran 76 yn cynnwys y pŵer i wahardd ymddiriedolwyr a swyddogion eraill dros dro, diogelu eiddo'r elusen trwy gyfyngu ar y trafodion y gall yr elusen eu cyflawni a phenodi rheolwr dros dro.

## C16. Fydd y rhybudd yn cael ei gyhoeddi?

Bydd y comisiwn yn penderfynu ym mhob achos a yw'n briodol i gyhoeddi rhybudd. Bydd yn dilyn yr un egwyddorion sy'n gymwys i gyhoeddi **datganiadau ar achosion byw, adroddiadau ar achosion rheoleiddiol ac adroddiadau ar ymchwiliadau statudol**.

Fel rheol bydd y comisiwn yn cyhoeddi rhybudd pe byddai gwneud hynny yn debygol o:

- helpu i sicrhau bod yr ymddiriedolwyr yn cydymffurfio â'u dyletswyddau
- diogelu ffydd a hyder cyhoeddus yn yr elusen neu mewn elusennau yn fwy cyffredinol
- bod y ffordd fwyaf effeithiol o dynnu sylw at fater rheoleiddiol i'r sector ehangach
- hyrwyddo atebolrwydd a thryloywder
- diogelu darpar roddwyr neu gyllidwyr mewn amgylchiadau lle rydym o'r farn bod hynny'n angenrheidiol
- bod er budd y cyhoedd am unrhyw reswm arall

Ni fydd y comisiwn yn cyhoeddi rhybudd pe byddai gwneud hynny yn:

- niweidiol i unigolyn neu grŵp arbennig o unigolion, er enghraifft risg i ddiogelwch personol rhywun
- yn groes i ofynion neu'n niweidiol i ofynion cyfrinachedd neu sensitifrwydd masnachol, neu'n risg i ddiogelwch cenedlaethol
- achosi rhagfarn anghymesur i'r elusen a/neu ei buddiolwyr
- yn groes i ddyletswydd y comisiwn i ddefnyddio ei adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon, effeithiol ac economaidd
- peidio â bod er budd y cyhoedd am unrhyw reswm arall

Os yw'r comisiwn yn cyhoeddi rhybudd swyddogol, fel rheol caiff ei gyhoeddi ar GOV.UK. Gall y comisiwn ystyried mathau eraill o gyhoeddi (megis ar safle'r elusen) os yw hynny'n briodol yn yr amgylchiadau.

## C17. Sut galla i osgoi cael rhybudd swyddogol gan y comisiwn?

Gall y comisiwn ddefnyddio rhybudd swyddogol mewn achosion o dor-ddyletswydd, camymddwyn neu gamreoli mewn elusen yn unig.

Hyd yn oed os aiff rhywbeth o'i le yn eich elusen, yn y rhan fwyaf o achosion os ydych:

- yn cysylltu â'r comisiwn amdano i roi gwybod i ni ac os oes angen i gael ein cymorth
- yn gweithio gyda'r comisiwn ac yn dilyn ei gyngor i ddatrys y mater

mae'n debyg na fydd unrhyw reswm i'r comisiwn gyhoeddi rhybudd swyddogol neu ddefnyddio unrhyw bwerau rheoleiddiol er mwyn datrys y mater.

## C18. Ble galla i gael rhagor o wybodaeth am rybuddion swyddogol?

Mae'r comisiwn wedi cyhoeddi cyfarwyddyd gweithredol i'w staff yn esbonio yn fwy manwl sut y caiff y pŵer rhybuddio ei ddefnyddio.